Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 28 Mawrth 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | B Hopkins | L R Jones |
| D Phillips | A Pugh | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jane Harries | Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid |
| Rosie Jackson | Uwch-swyddog Polisi a Lesddaliad |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau Tai |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, P K Jones a/ac C Richards

---

## 45 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y diddordebau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd D Phillips ddiddordeb personol yng Nghofnod 47 "Gwastraff bwyd" - Trysorydd Banc Bwyd Eastside.

## 46 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

## 47 Gwastraff Bwyd.

Rhoddodd Pennaeth Tlodi a'i Atal gyflwyniad er mwyn archwilio potensial gostyngiad treth ar gyfer banciau bwyd.

Darparwyd yr wybodaeth gan weithwyr Cyllid, fodd bynnag, nid oeddent yn arbenigo yn y maes hwn ac fe'u cynghorwyd y dylai unrhyw ymholiadau mewn perthynas â gwybodaeth am dreth/tâl gael eu cyfeirio at un o'r canlynol:

- Trussell Trust
- Gwefan CThEM
- Ailgyfansoddiad SVCS

Yn ychwanegol, archwiliodd y pwyllgor opsiynau eraill o gefnogi banciau bwyd - y brif broblem a nodwyd oedd diffyg cyfleusterau storio oer, a oedd yn arwain at fwyd dros ben yn cael ei daflu gan archfarchnadoedd am nad oedd gan fanciau bwyd unrhyw ffyrdd o storio symiau mawr o eitemau oer neu wedi'u rhewi.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cofnodi'r cyflwyniad:
2) Y pwyllgor i drafod banciau bwyd a gweithio gyda sefydliadau eraill mewn perthynas â'r problemau ynghylch cyfleusterau storio oer mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 48 Datblygu Strategaeth Digartrefedd Abertawe.

Rhoddodd Steve Porter, Rheolwr Gweithredoedd Tai, a gefnogwyd gan Jane Harries, Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid a Rosie Jackson, Uwch-swyddog Polisi a Lesddaliad, gyflwyniad i gyd-fynd â'r adroddiad i roi gwybod i'r pwyllgor am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ddatblygu'r Strategaeth Digartrefedd ac i ddarparu cyfle i'r pwyllgor wneud sylwadau ar ddatblygiad yr amcanion drafft, yr egwyddorion allweddol, yr amcanion a'r camau gweithredu a dylanwadu arnynt.

Trafododd y pwyllgor:

- Y nod drafft - roedd y pwyllgor yn teimlo y gallai hyn gael ei gryfhau;
- Model Tai'n Gyntaf (Cyfeiriwyd at fodelau'r Ffindir a Dulyn hefyd);
- Cyfradd marwolaeth y digartref ar gyfartaledd;
- Os oedd cyllid ar gael, rhoi amcanion y strategaeth ar waith;
- Yr angen am ganlyniadau mesuradwy i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cyflwyniad a'r adroddiad;
2) Y pwyllgor i edrych ar yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a grëwyd ym mis Ionawr 2018 - Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd https://www.wao.gov.uk/cy/system/files/publications/local-government-homelessness-2017-welsh_0.pdf
3) Cyflwyno'r Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a drefnir ar gyfer mis Gorffennaf 2018.

## 49 Gofyn i Aelodau Ymchwilio i Ddigartrefedd. (Llafar)

Gofynnodd y pwyllgor beth yn union a oedd angen ymchwilio iddo, am fod digartrefedd yn faes eang iawn. Beth fyddai canlyniad yr ymchwil? Buont yn trafod a ddylent ymchwilio i arfer da yn yr awdurdodau cyfagos, neu a ddylid sefydlu Grŵp

Tasg a Gorffen. Nodwyd bod y Panel Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi yn y broses o ymweld â chanolfannau amrywiol felly dylid osgoi dyblygu.

Nododd Pennaeth Tlodi a'i Atal, gan fod y Polisi Digartrefedd yn ei gyfnod datblygu, roedd gan y pwyllgor y cyfle i ystyried a oedd y polisi'n ddigon blaengar i gyflwyno amcanion y strategaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd L R Jones at y papur ymchwil a gylchredwyd yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror mewn perthynas â Thai'n Gyntaf.

**Penderfynwyd** bod y pwyllgor yn ystyried yr adroddiad archwilio uchod ar Dai'n Gyntaf yn y cyfarfod nesaf a drefnir ar gyfer 25 Ebrill 2018.

## 50 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith diwygiedig ar gyfer 2017-18.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynllun gwaith;
2) Cynnwys yr eitemau canlynol yn y Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019:
    a. Digartrefedd - Cynllun Gweithredu (cyfarfod mis Gorffennaf 2018);
    b. Banciau bwyd (gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill a'r mater o gyfleusterau storio oer).

Daeth y cyfarfod I ben am 5.38 pm

**Cadeirydd**